**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20fed Mehefin 2011**

## YMGYNGHORIAD 2011 AR Y CYNLLUN GWELLA A LLEIHAU RISG CYFUNOL

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 I ofyn am gefnogaeth Aelodau ynglŷn a'r penderfyniadau sydd wedi eu gwneud ar gynnwys y Cynllun Gwella a Lleihau Risg (CLlR) 2012-13 a threfniadau'r ymgynghoriad eleni.

## Cefndir

2 Mae Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ('y mesur') yn gofyn i Awdurdodau Gwella Cymreig osod amcanion gwella iddynt eu hunain sydd wedi cael eu hymgynghori.

3 Mae'r Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) yn gofyn i awdurdodau gwella Cymreig gyhoeddi eu cynllun gwella cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl y 30ain o Fedi, yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol mae'r cynllun yn berthnasol iddi. I gyd-fynd ag amserlen cyhoeddi'r CLlR, mae hyn yn cael ei ddehongli fel 31ain o Hydref ym mhob blwyddyn.

4 Er bod rhaid i'r Awdurdodau Tân ac Achub osod amcanion gwella bob blwyddyn, nid yw hyn yn golygu fod yn rhaid i'r amcanion newid bob blwyddyn neu gael eu cyflwyno o fewn blwyddyn.

5 Mae Adran 5 o'r mesur yn gofyn i awdurdodau, wrth benderfynu sut i wella, ymgynghori gyda chynrychiolwyr trigolion, talwyr trethi annomestig, defnyddwyr gwasanaeth a'r rhai sydd â diddordeb yn yr ardal.

6 Nid yw’r mesur ei hunan yn manylu amlder, hyd nag amseru’r ymgynghoriadau, ond mae’r canllaw a roddwyd i’r awdurdod tân ac achub ar sut i gydymffurfio gyda’r mesur yn tybio fod gofynion anstatudol yn y CLlR (i ymgynghori ar CLlR a chynlluniau gweithredu dilynol am o leiaf 12 wythnos) yn cael eu cwrdd.

## Cyflwyniad

7 Roedd Cynllun Gwella a Lleihau Risg cyfunol yr Awdurdod a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010 yn cynnwys saith o amcanion i’w gwella: effeithlonrwydd strategaeth, ansawdd gwasanaeth, argaeledd gwasanaeth, cynaladwyedd a thegwch yn 2011-12 a thu hwnt.

8 Roedd un ar hugain o gamau gweithredu wedi codi o’r saith amcan, gyda nifer ohonynt yn cymryd mwy na blwyddyn i’w cyflawni.

## Gwybodaeth

<u>Cynnwys y Cynllun Cyfunol 2012-13</u>

9 Gan ystyried:

- cwmpas eang yr amcanion presennol yng Nghynllun Gwella a Lleihau Risg 2011-12;
- yr angen i ganiatáu amser i gyfnerthu’r amcanion presennol mewn amser o bwysau cynyddol wrth ostwng cyllidebau;
- amserlenni tynn annisgwyl i gyhoeddi cynllun eleni erbyn diwedd Hydref 2011 yn hytrach na diwedd Mawrth 2012 fel a gynigwyd ar y dechrau; a
- phenderfyniad y Cynulliad i ohirio cyhoeddi Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol newydd, gan adael y Fframwaith 2008-11 bresennol yn ei lle am nawr;

penderfynodd y Panel Gweithredol mewn cyfarfod ar 9fed Mai 2011 i barhau gyda’r un saith amcan am flwyddyn arall yn 2012-13, ond gyda chynlluniau gweithredu wedi eu diweddaru.

Ymgynghoriad ar Gynllun Cyfunol 2012-13

10 Oherwydd mai ychydig iawn o newidiadau sy'n cael eu cynnig, ac o ystyried cost ac agweddau amgylcheddol y cyhoeddiad, penderfynodd y Panel Gweithredol ar ymagwedd wahanol eleni a pheidio â chyhoeddi'r ddogfen ymgynghori liwgar arferol.

11 Yn lle, bydd taflen driphlyg ddwyieithog syml yn cynnwys crynodeb byr o'r saith amcan a gwybodaeth gyffredinol arall yn cael ei dosbarthu drwy Ogledd Cymru.

12 Bydd gwybodaeth ychwanegol ar gael ar wefan yr Awdurdod, ac fe wahoddir unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylw ar y cynigion i wneud hynny drwy'r post, e-bost neu drwy'r wefan.

## Argymhellion

13 Fod Aelodau'n cefnogi penderfyniadau'r Panel Gweithredol ar gyfer cynnwys y Cynllun Gwella a Lleihau Risg Cyfunol 2012-13 a'r broses ymgynghori gyfyngedig.